# Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-11-10 : Papur 4 : 12 Mai 2010**

## Y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru

### Tystiolaeth gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru i Ymchwiliad Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Diben

1. Diben y papur hwn yw esbonio sut mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi bwrw ymlaen â Strategaeth Amgylcheddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ers ei lansio yn 2006.

### Cyflwyniad

2. Mae gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru dair prif swyddogaeth, y mae pob un ohonynt yn berthnasol i weithredu'r Strategaeth Amgylcheddol:

Rydym yn cynorthwyo â datblygu, cynghori a monitro gweithredu polisi coedwigaeth Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru

Rydym yn rheoli ystâd coetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru sef oddeutu 125,000 hectar er mwyn cyflawni polisi coedwigaeth Cymru

Rydym yn hybu cyflawni polisi coedwigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y 60% o goetir sydd dan berchnogaeth breifat trwy gyfres o reoleiddio, cymhellion a threfniadau partneriaeth

### Datblygu Polisi

3. Bu i ni secondio aelod rhan-amser o staff i weithio fel rhan o'r tîm craidd a ddatblygodd y Strategaeth Amgylcheddol. Ers lansio'r strategaeth, rydym wedi cymryd rhan weithredol yn y Grŵp Cyfeirio i gynorthwyo â chydgysylltu gweithredu'r strategaeth yn fwy cyffredinol ac yn benodol i adrodd yn erbyn y gweithredoedd lle'r ydym wedi diffinio cyfrifoldebau.

4. Mae ymwneud yn agos fel hyn wedi bod yn fuddiol yn nhermau ein cynorthwyo ni i fwrw ymlaen â'n cyfrifoldebau i ddatblygu polisi o ran polisi coedwigaeth Cymru. Yn rhannol o ganlyniad i gyhoeddi'r Strategaeth Amgylcheddol nodasom angen i ddiweddaru strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer coetiroedd a choed, Coetiroedd i Gymru, i sicrhau ei bod yn cydymffurfio ac yn gydnaws â'r Strategaeth Amgylcheddol. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru'n Un yr angen hwn a gofynnodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig i ni ddiwygio Coetiroedd i Gymru yn ffurfiol tua diwedd 2007.

5. Datblygwyd papur ymgynghori a gosodwyd nifer o gynigiadau trwy ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol yn ystod 2008. Roedd llawer o'r cynigiadau'n ceisio safbwyntiau ar fwrw ymlaen â chanlyniadau'r Strategaeth Amgylcheddol trwy reolaeth coetir a chyflwynwyd y strategaeth fel sbardun allweddol gan ddefnyddio'r disgrifiad canlynol:

6. Lansio Strategaeth Amgylcheddol Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006 - Mae Strategaeth Amgylcheddol Cymru yn cydnabod gwerth coetiroedd i gyflawni ystod eang o fuddion amgylcheddol. Mae'r rhain yn cynnwys eu gwerth bioamrywiaeth fel un o'n cynefinoedd cyfoethocaf yn cefnogi llawer o rywogaethau eiconaidd a phwysig; eu gwerth diwylliannol a threftadaeth; a darpariaeth 'gwasanaethau ecosystem', h.y. y buddion a gaiff pobl o'r ecosystemau naturiol. Mae'r strategaeth yn rhestru sawl canlyniad dymunol ar gyfer 2026 a, lle bo'n briodol, dylid eu hadlewyrchu yn y strategaeth goetiroedd ddiwygiedig:

Newid yn yr hinsawdd: Gostyngir allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn gyson â

Chymru'n cyfrannu'n llawn i fodloni targedau'r DU gyfan ac yn unol â thargedau mwy penodol Cymru; mae Cymru wedi gwella'i gwytnwch tuag at newid yn yr hinsawdd; ac mae mesurau priodol ar waith i reoli'r perygl o lifogydd gan afonydd (a dŵr wyneb) a helpu addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Pridd: Rheolir pridd i ddiogelu ei allu i gynnal planhigion ac anifeiliaid, storio carbon a darparu gwasanaethau ecosystem pwysig eraill.

Bioamrywiaeth: Mae colli bioamrywiaeth wedi'i atal a gallwn weld adferiad yn nifer, ystod ac amrywiaeth genetig rhywogaethau, mae safleoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol, ac o safbwynt Cymru a'r ardal leol mewn cyflwr da i gynnal rhywogaethau a chynefinoedd y nodir iddynt; ac mae'r amgylchedd ehangach yn fwy ffafriol i fioamrywiaeth drwy reolaeth briodol, lleihau dryllio cynefinoedd a gwellhad ym maint a chydgysylltiad cynefinoedd.

Tirwedd: Caiff ansawdd ac amrywiaeth nodweddion naturiol a hanesyddol ein tirwedd eu cynnal a'u gwella; mae camau yn cael eu cymryd i adfer safleoedd wedi'u halogi at ddefnydd buddiol lle y bo hynny'n briodol.

Mynediad i fannau gwyrdd: Mae mynediad hawdd, teg i ddigonedd o fannau gwyrdd o ansawdd uchel; mae mynediad cynaliadwy, eang, cyfiawn i gefn gwlad sy'n cydnabod yr angen am gydbwysedd rhwng mannau tawel a mannau sy'n cefnogi niferoedd mawr o bobl ac ystod o weithgareddau.

7. O ganlyniad, daeth y materion canlynol i'r amlwg fel y rhai sy'n allweddol i ddiwygio Coetiroedd i Gymru. Mae pob un ohonynt naill

ai'n benodol gydnaws â'r Strategaeth Amgylcheddol, neu yn gyson â hi:

Ehangu coetiroedd brodorol Cymru, gwella'r rheolaeth o goetiroedd brodorol sy'n bodoli eisoes a gwella'r rhywogaethau brodorol yng nghoetiroedd conwydd Cymru;

Diogelu neu wella'r gwasanaethau ecosystem y gall coetiroedd eu darparu;

Addasu'r coetiroedd ar gyfer newid yn yr hinsawdd er mwyn cynhyrchu cynefinoedd hydwyth a all gyflawni buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol;

Helpu lleihau newid yn yr hinsawdd trwy gynhyrchu mwy o bren (cynhyrchion pren o ansawdd yn ogystal â thanwydd pren);

Rhoi mwy o bwyslais ar ddiogelu bioamrywiaeth, safleoedd dynodedig a choetiroedd hynafol ac ar gynyddu maint a chydgysylltiad cynefinoedd lled-naturiol;

Creu a chynnal swyddi, ac annog mentrau a thwf busnesau, yn enwedig mewn cymunedau gwledig a'r rhai hynny sydd mewn ardaloedd o amddifadedd uchel;

Mynediad i goed a choetiroedd, yn enwedig mewn cyd-destun trefol, ac annog hamdden er mwyn iechyd a lles pawb.

8. Mewn cyferbyniad roedd y strategaeth Coetiroedd i Gymru wreiddiol yn canolbwyntio ar ddarparu ystod fwy o nwyddau a gwasanaethau o'r adnodd coetirol presennol heb ymdrin yn benodol ag unrhyw newidiadau i'r adnodd hwn y gallai fod eu hangen (ar wahân i darged ar gyfer troi coetir yn goedwigaeth gorchudd di-dor). Mae'r strategaeth ddiwygiedig wedi ymdrin yn glir â'r materion y rhoddir sylw iddynt uchod ac mae hefyd wedi datblygu gweledigaeth fwy penodol ar gyfer maint, cymeriad a lleoliad coetiroedd Cymru - er mwyn cyflawni amcanion cytunedig.

## Gweithredu a Chyflawni

9. Gan ddisgwyl diwygio Coetiroedd i Gymru ac ochr yn ochr â hynny roedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cymryd rhan mewn paratoi'r cynllun gweithredu cyntaf ar gyfer y Strategaeth Amgylcheddol.

10. Nodwyd bod gweithredu Coetiroedd i Gymru, gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ac eraill dros y 50 mlynedd nesaf yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau canlynol y Strategaeth Amgylcheddol. O dan bob canlyniad mae crynodeb byr o'r gweithgaredd gweithredu y mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi bod yn rhan ohono naill ai o ganlyniad i weithredoedd a nodir yn y ddau gynllun Gweithredu neu drwy ein gweithgaredd corfforol ehangach:

## Canlyniad Rhif 7

11. Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael eu lleihau ac mae hynny'n gyson â chyfraniad llawn Cymru tuag at gwrdd â thargedau'r Deyrnas Unedig gyfan ac yn unol â thargedau mwy penodol sy'n cael eu datblygu

12. Beth sydd wedi digwydd? - Yn ogystal â hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar goetiroedd Cymru sy'n cyfrannu dalfa net flynyddol o 1430Kt cyfwerth â CO2 y flwyddyn (2007), rydym wedi bod yn wrthi'n archwilio a meintioli buddion ehangu coetiroedd Cymru fel mesur lleihau'r newid yn yr hinsawdd. Rydym wedi darparu canlyniadau ymchwil seiliedig ar fodel i lywio datblygu'r strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd, trwy'r Grŵp Defnydd Tir a Newid Hinsawdd. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei gysylltu'n effeithiol â chyflenwi ystod ehangach o fuddion i'r cyhoedd fel y disgrifir yn y ddogfen Coetiroedd i Gymru ac wedi arwain at y cyhoeddiad diweddar gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig sydd â'r nod o sicrhau 100,000 o hectarau ychwanegol o goetir brodorol a chymysg ledled Cymru dros yr 20 mlynedd nesaf, gan ddefnyddio cymorth cynllun Glastir. Os cyflawnir hyn yna gallai'r coetiroedd newydd hyn ddarparu cyfraniad dalfa flynyddol brig o tua 1689Kt cyfwerth â CO2 rhwng 2050 a 2060.

13. Hefyd, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cyflawni ystod o fesurau gyda'r nod o optimeiddio lleihau nwyon tŷ gwydr bob blwyddyn o reolaeth ar yr adnodd coetirol presennol gan gyflenwi ystod ehangach o fuddion i'r cyhoedd. Beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol yw rhaglenni priodol i gynaeafu coed er mwyn diogelu swyddi gwledig, cyflenwi buddion amgylcheddol o reolaeth ar goetiroedd ynghyd â defnyddio cynhyrchion pren wedi'u cynaeafu yn lle defnyddio tanwyddau ffosil naill ai trwy amnewid deunydd neu drwy ynni pren.

## Canlyniad Rhif 8

14. Mae Cymru wedi gwella o ran ei gallu i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd. Mae rhaglen hyblyg a chlir o fesurau yn ei lle i alluogi Cymru i ymateb ac ymaddasu i newid hinsawdd.

15. Beth sydd wedi digwydd? - Mae Coetiroedd i Gymru yn rhoi pwyslais enfawr ar newid cymeriad llawer o goedwigoedd Cymru, sydd ag un rhywogaeth gan fwyaf, yn sylfaenol, a hynny'n rhannol er mwyn gwella'r gallu i wrthsefyll yr holl beryglon cysylltiedig sy'n codi o hinsawdd sy'n newid. Mae'r strategaeth 'amrywio' hon yn cael ei mabwysiadu yn yr holl gynlluniau ailblannu yn y dyfodol i goetiroedd Llywodraeth y Cynulliad ac mae cymelldaliadau trwy Goetiroedd Gwell i Gymru yn ceisio sicrhau bod yr adnodd coetirol preifat yn cael ei amrywio yn yr un modd.

16. Hefyd, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi cydweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid wrth hybu defnyddio coetiroedd a choed newydd i helpu'r gymdeithas i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd. Mae'r cyfleoedd hyn yn amrywio o enghreifftiau yng nghefn gwlad megis gwaith plannu coed ym mhrosiect Pontbren ym Mhowys gyda holl fuddion lleihau dŵr ffo yn sgil hynny, i'n gwaith ar

ddatblygu cynllun cyfleoedd coetiroedd a choed i ardal Adfywio Strategol Blaenau'r Cymoedd. Mae'r cynllun hwn yn nodi cyfleoedd penodol o ran y gallu i wrthsefyll mewn ardaloedd trefol, megis Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy sy'n cynnwys coed a choetiroedd, ynghyd â chyfleoedd i dyfu coed ar strydoedd i roi buddion o ran cysgod, lloches a microhinsawdd.

### Canlyniad Rhif 16

17. Rheolir y pridd mewn modd sy'n diogelu ei allu i gynnal planhigion ac anifeiliaid, storio'r carbon a darparu gwasanaethau eraill ar gyfer ecosystemau.

18. Beth sydd wedi digwydd? - Mae'r gwaith modelu fflwcs carbon y cyfeirir ato o dan ganlyniad 7 wedi cynnwys tybiaethau seiliedig ar wyddoniaeth ynglŷn ag allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â symud pridd o ganlyniad i reolaeth coetiroedd. Mae hyn wedi'i gwneud yn bosibl barnu'n wrthrychol lle mae allyriadau carbon bach yn cael eu lleihau'n gyflym trwy eu dal a'u storio mewn biomas uwchben y ddaear o'u cymharu gyda mathau eraill mwy organig o bridd lle mae'n cymryd yn hirach o lawer i'r lleihad hwn ddigwydd.

19. Canolbwyntiwyd yn benodol ar y 12,000 o hectarau, yn fras, o goedwigoedd wedi'u plannu ar safleoedd mawn dwfn. Mae Coetiroedd i Gymru yn nodi cyfeiriad clir tuag at adfer y safleoedd hyn, neu newid sylfaenol yn y ffordd y'u rheolir, er mwyn creu coetir brodorol heb ymyrraeth, os yw'r mawn wedi cael ei newid gormod i gael ei adfer i gynefin tir agored. Mae enghreifftiau o fannau lle mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud eisoes yn cynnwys Penaran a'r Foel Boeth ar y Migneint yng Ngwynedd lle mae mwy na 100 hectar o goed wedi'u plannu yn y broses o gael eu symud ymaith er mwyn adfer gorgors.

### Canlyniad Rhif 18

20. Mae mwy o ddefnyddiau gwahanol, agregau eilaidd a rhai wedi eu hailgylchu'n cael eu defnyddio yn y diwydiant adeiladu pan fo modd.

21. Beth sydd wedi digwydd? - Mae Coetiroedd i Gymru yn cyfleu'r farn mai pren yw'r adnodd mwyaf adnewyddadwy posibl, gyda llawer o ddefnyddiau posibl, gan gynnwys cymryd lle llawer o ddeunyddiau adeiladu megis dur, concrid a phlastig, y mae pob un ohonynt yn dibynnu'n helaeth ar ddefnyddio tanwyddau ffosil i'w cynhyrchu. Hefyd mae pren, mewn amrywiaeth o ffurfiau, yn cynnig y budd ychwanegol o 'gloi' carbon am hyd oes y cynnyrch. Yna mae hefyd gyfleoedd i'w ailddefnyddio a'i ailgylchu cyn i unrhyw garbon sydd wedi'i gloi gael ei ryddhau yn y pen draw, yn ddelfrydol trwy losgi'r pren i greu ynni yn hytrach na thrwy ddadelfeniad. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi bod yn gweithio mewn nifer o ffyrdd i sicrhau buddion o'r adnodd pren cartref yn y modd hwn ond hefyd trwy ddefnyddio mwy o bren a gynhyrchir mewn ffordd gynaliadwy o wledydd eraill. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys canolbwyntio ar sicrhau bod cynaeafu o goetiroedd Cymru'n cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy ac y gwneir defnydd o'r adnodd llydanddail yng Nghymru, nad yw'n cael ei ddefnyddio digon o bell ffordd, ar gyfer ynni pren trwy ein rheolaeth o'r Cynllun Busnes Ynni Pren. Hefyd rydym wedi cyfrannu at helpu Partneriaeth Fusnes Coedwig Cymru i ymsefydlu er mwyn marchnata cynhyrchion o bren cartref yn fwy effeithiol, a thrwy hynny helpu i gael pren o goetiroedd nad oeddent yn cael eu rheoli digon o'r blaen.

### Canlyniad Rhif 19

22. Ataliwyd colledion bioamrywiaeth a gwelir adferiad pendant yn nifer, ystod ac amrywiaeth genetig y rhywogaethau, yn cynnwys rhywogaethau sydd yn dibynnu ar amodau penodol iawn i oroesi.

23. Beth sydd wedi digwydd? - Mae Coetiroedd i Gymru yn rhoi llawer iawn o'i phwyslais ar greu ecosystemau coetirol sy'n darparu amrywiaeth fwy o fuddion, gan gynnwys bioamrywiaeth. Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd rhywogaethau coetirol allweddol.

24. Yn ogystal â chanolbwyntio ein gwaith rheoli ar sicrhau coetiroedd â gallu gwell i wrthsefyll ar raddfa'r dirwedd er mwyn cyflenwi cyfres ehangach o wasanaethau ecosystem, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru hefyd wedi gwneud gwaith penodol i gynorthwyo ag adfer rhywogaethau penodol megis y pathew (trwy weithredu deddfwriaeth Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop), y wiwer goch a'r rugiar ddu.

### Canlyniad Rhif 20

25. Mae'r amgylchedd ehangach yn fwy ffafriol i fioamrywiaeth oherwydd gwell rheolaeth briodol, llai o ddarnio cynefinoedd, a'r cynnydd mewn cynefinoedd a'r cysylltiadau sydd rhyngddynt.

26. Beth sydd wedi digwydd? - Fel y soniwyd wrth ymateb i ganlyniad 19, wrth weithredu strategaeth Coetiroedd i Gymru canolbwyntiwyd ar gyflenwi buddion trwy newidiadau i ecosystemau coetirol ar raddfa'r dirwedd. Er enghraifft, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gwireddu'r uchelgais yn strategaeth Coetiroedd i Gymru i gael adnodd coetirol brodorol mwy trwy gynllun uchelgeisiol i newid yr holl Blanhigfeydd a blannwyd ar safleoedd coetiroedd hynafol yn goetir brodorol trwy gyfres o ymyriadau rheoli wedi'u blaenoriaethu er mwyn sicrhau y cânt eu hadfer yn unol â'r arferion gorau. Hefyd ein nod yw creu 1000 o hectarau eraill o goetir brodorol newydd trwy blannu yn ystod y cyfnod o 3 blynedd o 2009 i 2012, yn ogystal â nodi cyfleoedd addas i ddefnyddio rhywogaethau brodorol yn ein cynlluniau i amrywio planhigfeydd un rhywogaeth.

27. Mae pwysigrwydd y dull hwn o weithredu ar raddfa'r dirwedd yn cael mwyfwy o gydnabyddiaeth, yn anad dim trwy ddatblygu'r cysyniad o Fframwaith Amgylchedd Naturiol yn ddiweddar fel ffordd o gyflawni'r canlyniad hwn yn weithredol o bosibl.

### Canlyniad Rhif 21

28. Mae safleoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol, ac o safbwynt Cymru a'r ardal leol mewn cyflwr ffafriol i gynnal y rhywogaethau a'r

cynefinoedd a glustnodwyd ar eu cyfer.

29. Beth sydd wedi digwydd? - Mae oddeutu 15,000 o hectarau o goetir wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac mae 11,000 o hectarau wedi'u gwarchod o dan y gyfres ryngwladol o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Dim ond 9% o'r ACA coetirol hyn yr ystyrir eu bod mewn cyflwr ffafriol ac mae 25% arall mewn cyflwr anffafriol ond yn ymadfer. Ers cyhoeddi'r Strategaeth Amgylcheddol, mae gwaith adfer a nodwyd i helpu i fodloni'r canlyniad penodol hwn wedi cael ei baratoi'n uniongyrchol ar gyfer safleoedd coetirol Llywodraeth y Cynulliad ac yn anuniongyrchol trwy gynllun grant Coetiroedd Gwell i Gymru ar gyfer y safleoedd eraill. Mae Coetiroedd i Gymru yn cymeradwyo'r ymagwedd hon trwy hybu dull ecosystemau coetirol iach o reoli coetiroedd ac yn canolbwyntio ar sicrhau rheolaeth ffafriol ar y safleoedd coetirol dynodedig hyn gyda gwelliannau i'w cyflwr yn ganlyniad i'r gweithredoedd hyn.

## Canlyniad Rhif 23

30. Mae ansawdd ac amrywiaeth cymeriad naturiol a hanesyddol ein tirwedd a'n morlun yn cael ei gynnal a'i wella.

31. Beth sydd wedi digwydd? - Mae Coetiroedd i Gymru wedi nodi fel canlyniad yr angen i goetiroedd a choed wneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad tirweddol arbennig Cymru ac i safleoedd o bwysigrwydd treftadaethol a diwylliannol. Mae hyn yn dylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn â rheoli coetiroedd, yn enwedig newidiadau i natur a chymeriad coetiroedd. Er enghraifft, y penderfyniad i droi planhigfa anfrodorol yn goetir brodorol.

## Canlyniad Rhif 24

32. Mae'r amgylchedd adeiledig yn fywiog ac o safon uchel, yn adlewyrchu nodweddion lleol nodedig ac yn cynnal cymunedau cryfion sydd yn cymryd rhan amlwg yn y gwaith o reoli eu hamgylchedd lleol.

33. Beth sydd wedi digwydd? - Mae diwygio Coetiroedd i Gymru wedi golygu canolbwyntio'n fwy ar y potensial i goed a choetiroedd ddod ag amrywiaeth o fuddion mewn cyd-destun trefol. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn trwy ddatblygu rhaglen gorfforaethol benodol i'r rhan hon o'r strategaeth am y tro cyntaf. Hefyd rydym wedi secondio swyddog i weithio ar ddatblygu cynllun cyfleoedd o ran coetiroedd a choed i ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd, sydd wedi datblygu cynllun gweithredu sy'n nodi nifer o gyfleoedd i goed wella ansawdd yr amgylchedd adeiledig.

## Canlyniad Rhif 27

34. Mae mynediad hawdd a chyfartal i bawb at ddigon o lecynnau glas o safon uchel.

35. Beth sydd wedi digwydd? - Mae Coetiroedd i Gymru yn nodi a hyrwyddo buddion coetiroedd i bobl, i gymunedau, at ddysgu, iechyd a lles ac i fenter leol, ac yn nodi'r canlyniad i 'Fwy o bobl fyw bywydau iachach o ganlyniad i'w defnydd a'u mwynhad o goetiroedd'.

36. Ers blynyddoedd lawer mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi darparu cyfleoedd o ran mynediad a hamdden, ac mae ein rhaglenni corfforaethol sy'n datblygu'n canolbwyntio ar sicrhau profiadau o ansawdd uchel i ymwelwyr a mynediad i goetiroedd yn agos i'r mannau lle mae pobl yn byw, gan gynnwys yn yr amgylchedd trefol. Mae defnyddio dull cynhwysol, gan sicrhau bod grwpiau nad ydynt wedi ymweld â choetiroedd o gwbl neu'n aml yn y gorffennol yn cael cyfle i wneud hynny, yn elfen allweddol yn ein gwaith sy'n datblygu.

37. Mae arolygon diweddar wedi dangos bod canran yr oedolion sy'n dweud y gallant gyrraedd coetir yn hawdd heb gar wedi codi o 59% i 63% rhwng 2005 a 2009[1.] Mae canran y boblogaeth a all gyrraedd coetir mwy na 2ha o fewn 500m wedi codi o 16% i 17% rhwng 2004 a 2009, ac mae'r ganran a all gyrraedd coetir mwy na 20ha o fewn 4km wedi codi o 72% i 77% dros yr un cyfnod [2], gan ddangos bod gan goetiroedd ran allweddol i'w chwarae wrth ddarparu mynediad hawdd a theg i fannau gwyrdd o ansawdd uchel.

1. Arolwg Comisiwn Coedwigaeth Cymru o Farn y Cyhoedd ar Goedwigaeth 2. Prosiect 'Space for People' Coed Cadw

## Canlyniad Rhif 29

38. Mae yna fynediad cynaliadwy, eang a chyfartal i gefn gwlad a'r arfordir sydd yn cadw cydbwysedd rhwng ardaloedd tawel ac ardaloedd lle mae mwy o bobl ac ystod o weithgareddau. Bydd mynediad niweidiol yn cael ei lesteirio.

39. Beth sydd wedi digwydd? - Trwy ddynodi holl ystad goetirol rydd-ddaliadol Llywodraeth y Cynulliad yn dir mynediad agored, mae adnodd mynediad sylweddol wedi cael ei sicrhau am byth. Fodd bynnag, mae gweithgareddau Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn y maes hwn hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at y portffolio ehangach o gyfleoedd i gael mynediad gyda chilometrau lawer o lwybrau cerdded a marchogaeth ag arwyddion, llwybrau beicio oddi ar y ffordd dynodedig sy'n amrywio o lwybrau i'r teulu i lwybrau untrac ar gyfer beicio mynydd lawr allt eithafol. Hefyd, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi datblygu ei ganolfannau ymwelwyr i fod yn ganolbwyntiau cyrchfan allweddol ac mae'r fenter hon wedi cael ei hadlewyrchu mewn nifer o ganolfannau mewn coetiroedd sydd dan berchnogaeth breifat.

## Canlyniad Rhif 35

40. Mae ansawdd ein dŵr daear, ein hafonydd, llynnoedd a dyfroedd arfordirol yn cael ei gynnal a'i wella.

41. Beth sydd wedi digwydd? - Ochr yn ochr â'r Strategaeth Amgylcheddol, mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn un o'r prif

sbardunau i lawer o'r newidiadau i gymeriad ac, i raddau llai, maint coetiroedd Cymru a nodir yn y ddogfen Coetiroedd i Gymru. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi cymryd rhan weithredol yn y broses cynllunio rheolaeth dan arweiniad Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru mewn perthynas â'r gyfarwyddeb. Cafwyd partneriaeth weithredol rhwng Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru sydd wedi nodi'r tasgau ar y cyd y mae angen eu cyflawni i ganiatáu i reolaeth coetiroedd chwarae ei rhan lawn wrth wella ansawdd dŵr afonydd a llynnoedd Cymru. Mae'r fenter hon wedi cael adnoddau ychwanegol ac mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi rhoi lle i staff Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gynorthwyo â gwaith ymarferol cyflawni'r tasgau allweddol.

42. Hefyd, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi bod yn rhagweithiol wrth weithredu'r Canllawiau ar Goedwigoedd a Dŵr sy'n cael eu cefnogi gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn ogystal â gwelliannau i gynefinoedd torlannol trwy nifer o raglenni a mentrau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd.

### Canlyniad Rhif 36

43. Mae gwell dealltwriaeth o lygredd gwasgaredig ac mae camau gweithredu ar waith i leihau a rheoli llygredd gwasgaredig.

44. Beth sydd wedi digwydd? - Mae Coetiroedd i Gymru yn nodi fel un o'r 20 canlyniad mae'n ceisio eu cyflawni bod 'coed a choetiroedd newydd, a'r rhai sy'n bodoli'n barod, yn cyfrannu at reolaeth dŵr a phridd'. Mae datblygu cynllun Glastir yn cynnig cyfle pwysig i fwrw ymlaen â'r canlyniad hwn trwy greu coetiroedd newydd priodol ac wedi'u cynllunio'n dda i sicrhau bod llygredd gwasgaredig yn cael ei leihau cymaint ag sy'n bosibl ar lefel y fenter fferm unigol.

### Casgliad

45. Mae'n amlwg o'r papur hwn bod y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru wedi bod yn ddylanwadol tu hwnt wrth ddatblygu'r strategaeth ddiweddar ar gyfer defnyddio tir sydd ar hyn o bryd yn gorchuddio 14% o Gymru, trwy ddiwygio Coetiroedd i Gymru a thrwy waith Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Yn wir, mae gallu coetiroedd i gyflawni llawer o'r canlyniadau a geisir o'r Strategaeth Amgylcheddol wedi arwain, yn y blynyddoedd diwethaf, at sefydlu consensws eang a gweithio mwy cydgysylltiedig i gynyddu'r gorchudd coetirol yng Nghymru. Mae hyn wedi cael ei gefnogi'n gryf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru trwy'r cyhoeddiad a wnaeth y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn ddiweddar y bydd gorchudd coetiroedd yn cael ei gynyddu gan 100,000 o hectarau dros yr 20 mlynedd nesaf, yn bennaf trwy gynllun Glastir.

46. Cyflwynodd y Strategaeth 'wasanaethau ecosystem' fel egwyddor drefniadol ar gyfer ystyried y lliaws o fuddion i'r cyhoedd y gall coetiroedd eu darparu a sicrhau'r buddion mwyaf posibl i'r cyhoedd, ac mae wedi'i gwneud yn bosibl i ddechrau cymharu ar lefel canlyniadau rhwng gwahanol ffyrdd o ddefnyddio tir a dewisiadau o ran rheoli tir. Bu hyn o arwyddocâd mawr i goetiroedd gyda'u nifer fawr o fuddion anfarchnadol, ochr yn ochr â'r buddion marchnadol mwy amlwg.

47. Yn olaf, mae rhaglenni corfforaethol Comisiwn Coedwigaeth Cymru bellach wedi'u cysoni'n llwyr â chyflawni Coetiroedd i Gymru trwy ein rheolaeth uniongyrchol ar goetiroedd Llywodraeth y Cynulliad a hefyd trwy ein gwaith rheoleiddio a dylanwadu ar goetiroedd Cymru nad ydynt dan berchnogaeth y llywodraeth. Gwneir llawer o'r gwaith cyflawni trwy reoli newid i ecosystemau coetirol yn y tymor hir ac ni ellir ei gyflawni dros nos; ond gallwn fod yn hyderus y bydd y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru'n cael dylanwad arwyddocaol dros goetiroedd a choed Cymru yn y blynyddoedd i ddod.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Mai 2010